**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/LG/3410/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

22 Hydref 2020

Annwyl Mick

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu fy mod wedi gosod memorandwm cydsyniad offeryn statudol ("y memorandwm") sy'n ymwneud â Rheoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygiadau etc) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau") a wnaed gan yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros yr Amgylchedd ar 14 Hydref. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys diwygiadau i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer Cymru.

Pwrpas y Rheoliadau fydd sicrhau bod deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn cael eu trosi'n gyfraith yr UE a ddargedwir ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu. Mae Rheoliadau 2020 yn sicrhau bod y rheolau perthnasol yn y ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn gymwys i gychod pysgota'r DU pa le bynnag y maent, yn amodol ar reolau gwahanol sy'n deillio o gytundebau rhyngwladol, a bod yr un rheolau hynny'n parhau i fod yn gymwys i'r holl gychod pysgota sy'n gweithredu yn nyfroedd y DU.

Rwyf wedi gosod y memorandwm yn unol â'r gofyn o dan Reol Sefydlog (RhS) 30A. Yn fy marn i, mae'r Rheoliadau'n offeryn statudol perthnasol gan eu bod yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru nad yw'n ddarpariaeth gysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, darfodol, ategol nac arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Cofion

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.